WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Darlun Cymharol o Wasanaethau Orthopedeg

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Dyddiad:** Mehefin 2015

**Cyfeirnod:** 136A2015

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwaith a gwblhawyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Anne Beegan, Sian Davies, Andrew Doughton, Kate Febry, Delyth Lewis a Stephen Lisle o dan gyfarwyddyd David Thomas.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waitih gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffoniwch 029 2032 0500, e-bostiwch: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teil y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad cryno | 4 |
| 1 | Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | 14 |
| | Darpariaeth gofal sylfaenol | 14 |
| | Atgyfeiriadau gan feddygon teulu | 17 |
| | Gwasanaethau asesu a thriniaeth cyhyrysgerbydol cymunedol | 19 |
| 2 | Cleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | 22 |
| | Gwasanaethau i gleifion allanol | 22 |
| | Gwasanaethau ffisiotherapi | 26 |
| | Gwasanaethau radioleg | 28 |
| 3 | Gwasanaethau i gleifion preswyl | 31 |
| | Aros a pharatoi i fynd i'r ysbyty | 31 |
| | Derbyniadau | 34 |
| | Aros yn yr ysbyty | 36 |
| | Rhyddhau cleifion | 36 |
| 4 | Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | 40 |
| | Trefniadau dilynol | 40 |
| | Canlyniadau a phrofiad cleifion | 41 |
| | Atodiadau | |
| | Ffynonellau data | 45 |

# Adroddiad cryno

1 Yn 2013, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad gorfodol lleol o wasanaethau orthopedeg ledled Cymru. Nod yr adolygiad oedd ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw gwasanaethau orthopedeg yn effeithlon, effeithiol ac yn ddarbodus ac a ydynt yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd gynaliadwy?' Mae canfyddiadau'r gwaith hwnnw wedi'u cyflwyno mewn adroddiad cenedlaethol, **Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg**.

2 Fel rhan o'r fethodoleg a oedd yn sylfaen i'r adolygiad, aethom ati i gasglu amrywiaeth o ddata er mwyn deall perfformiad gwasanaethau orthopedeg presennol ym mhob bwrdd iechyd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein harolwg o wasanaethau orthopedeg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) ac yn nodi sut mae'r gwasanaeth yn cymharu â gweddill Cymru.

3 Rydym wedi seilio ein harolwg ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd gwasanaethau orthopedeg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio llwybr y claf. Rydym wedi casglu'r data o ffynonellau amrywiol (gweler Atodiad 1) a'r data a ddefnyddir yw'r data mwyaf a oedd ar gael adeg cyflwyno'r adroddiad. Mae canfyddiadau'r dadansoddiad o'r data wedi'u cyflwyno ym mhrif ran yr adroddiad hwn, ond mae'r negeseuon lefel uchel wedi'u cyflwyno yn Arddangosyn 1. Mae Arddangosyn 2 yn asesiad cryno sy'n defnyddio statws goleuadau traffig i ddangos sut mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn cymharu â gweddill Cymru o safbwynt pob dangosydd, a sut mae'n cymharu â thargedau Llywodraeth Cymru, lle mae'r wybodaeth honno yn berthnasol.

Arddangosyn 1: Negeseuon lefel uchel

Mae gwasanaethau orthopedeg yn ymdopi â galw'n gyffredinol, sy'n gyson isel, ond mae amseroedd aros hir am MRI. Mae angen gwella llwybr y claf preswyl er mwyn defnyddio adnoddau'n well ac er bod canlyniadau i gleifion yn dda yn gyffredinol, mae'r cyfraddau uchel o ail-wneud llawdriniaethau ac apwyntiadau dilynol a gollir ymysg yr uchaf yng Nghymru:

- Mae buddsoddiad mewn gwasanaethau gofal sylfaenol wedi cynyddu, ac mae yna gyfradd isel gyson o atgyfeiriadau gan feddygon teulu, er nad yw effaith y Gwasanaeth Asesu a Thrin Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS) yn glir.
- Mae gwasanaethau cleifion allanol a ffisiotherapi yn ateb y galw'n gyffredinol, er y gallai gostwng cyfraddau Cleifion Na Fynychodd Apwyntiadau ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol a darparu mynediad uniongyrchol i wasanaeth ffisiotherapi wella amseroedd aros ymhellach. Mae cael apwyntiad MRI yn broblem i gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio gan eu meddyg teulu.
- Gallai trefniadau asesu cyn llawdriniaeth mwy amserol, cynyddu cyfraddau llawdriniaeth dyddiol, cyfraddau defnyddio gwelyau a lleihau costau prosthetig wella'r defnydd o adnoddau i gleifion preswyl.
- Mae cleifion yn cael canlyniadau cadarnhaol yn gyffredinol ac eithrio cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau, sydd ymysg yr uchaf yng Nghymru ac nid yw pob claf yn cael apwyntiad dilynol.

Arddangosyn 2: Asesiad cryno

| Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn darpariaeth gofal sylfaenol?** | | |
| Mwy o fuddsoddi mewn darpariaeth gofal sylfaenol cyhyrysgerbydol | Mae gwariant ar ddarpariaeth gofal sylfaenol ar gyfer problemau cyhyrysgerbydol wedi cynyddu wyth y cant rhwng 2010 a 2013. | ● |
| Cyfanswm y gwariant ar ddarpariaeth gofal sylfaenol | Y gwariant cyfartalog ar ofal sylfaenol fesul pen o'r boblogaeth (£11.20) yw'r isaf ledled Cymru. | ● |
| Cyfran cyfanswm y gwariant cyhyrysgerbydol sy'n cael ei dyrannu i ofal sylfaenol | Mae cyfran cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan am dair blynedd. | ● |
| Amrywiaeth y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i feddygon teulu | Mae'r detholiad o wasanaethau cymunedol sydd ar gael i feddygon teulu yn llai ffafriol na byrddau iechyd eraill. | ● |
| Derbyn ymyriadau amgen cyn llawdriniaeth | Mae cyfran y cleifion sy'n derbyn ymyriadau amgen cyn llawdriniaeth yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae cyfran y cleifion sy'n derbyn meddyginiaeth lleddfu poen fel dewis amgen yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | ● |
| **A yw'r galw am wasanaethau gofal eilaidd yn cael ei reoli?** | | |
| Cyfradd atgyfeirio meddygon teulu | Y gyfradd atgyfeiriadau gan feddygon teulu ym maes orthopedeg fesul 100,000 o'r boblogaeth yw'r isaf ond un yng Nghymru. | ● |
| Tuedd o ran atgyfeiriadau | Mae nifer yr atgyfeiriadau misol gan feddygon teulu wedi aros yn gymharol gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn cymharu'n dda â'r duedd ledled Cymru, lle mae atgyfeiriadau yn codi'n sylweddol. | ● |

| Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y Perfformiad** |
| **A yw'r CMATS yn gweithredu'n effeithiol?** | | |
| CMATS ar waith | Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd CMATS ym mis Ebrill 2012, ac mae'n cwmpasu pob ardal. |  |
| Trefniadau gweithredol CMATS | Mae CMATS yn cydymffurfio ag egwyddorion allweddol Llywodraeth Cymru ac eithrio o ran gweithredu fel porth i atgyfeiriadau gan feddygon teulu, a chynnwys podiatrydd practis uwch. |  |
| Lefelau staffio CMATS | Lefel y staff fesul 1,000 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu o fewn CMATS yw'r isaf ond un yng Nghymru. |  |
| Cleifion sy'n cael eu trin gan CMATS | Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfran y cleifion sy'n cael eu trin gan CAMTS. | - |
| Amseroedd aros ar gyfer asesu wyneb yn wyneb gan CMATS | Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar amseroedd aros cyfartalog ar gyfer asesu wyneb yn wyneb. | - |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y Perfformiad** |
| **A yw gwasanaethau i gleifion allanol yn effeithiol?** | | |
| Amseroedd aros am apwyntiadau cleifion allanol cyntaf | Mae canran y cleifion sy’n aros mwy na 26 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf nawr yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, er ei fod yn newid o un mis i’r llall. |  |
| Sesiynau meddygon ymgynghorol i gleifion allanol | Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar nifer cyfartalog y sesiynau meddygon ymgynghorol i gleifion allanol a gynhelir, er mai nifer y meddygon ymgynghorol fesul 1,000 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu yw’r uchaf yng Nghymru. | - |
| Clinigau cleifion allanol a ganslwyd | Canran y clinigau cleifion allanol a ganslwyd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau oedd 6.9 y cant, o gymharu â 4.3 y cant yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Nid oes cymhariaeth. |  |
| Cymarebau apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd | Y gymhareb apwyntiadau dilynol yw 3.2, sydd dipyn yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 1.9. |  |
| Cyfraddau cleifion na fynychodd apwyntiadau | Y gyfradd cleifion na fynychodd apwyntiadau yw’r uchaf yng Nghymru – 12.2 y cant. Mae’r gyfradd cleifion na fynychodd apwyntiadau dilynol (7.1 y cant) yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae’r ddau yn uwch na thargedau Llywodraeth Cymru. |  |
| Cleifion yn canslo apwyntiadau | Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfradd cleifion yn canslo apwyntiadau. | - |
| Cydgysylltu ymweliadau | Roedd naw deg tri y cant o gleifion yn teimlo bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio cydgysylltu’r ymweliadau amrywiol sy’n rhaid iddynt eu gwneud. Dyma’r ymateb uchaf yng Nghymru. |  |
| Cost fesul presenoldeb claf allanol | Mae’r gost fesul presenoldeb claf allanol orthopedig (£99.35) yn is na chyfartaledd Cymru gyfan ac mae’n gostwng. |  |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y Perfformiad** |
| **A yw gwasanaethau ffisiotherapi yn gallu ateb y galw?** | | |
| Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau ffisiotherapi | Roedd canran y cleifion sy’n aros llai nag wyth wythnos yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, ond mae wedi gwaethygu erbyn hyn, gyda chynnydd yn nifer y cleifion sy’n aros mwy nag 14 wythnos. | |
| Lleoliadau amrywiol | Mae gwasanaethau ffisiotherapi yn cael eu darparu mewn lleoliadau sylfaenol, cymunedol ac acíwt amrywiol. | |
| Mynediad hwylus | Nid yw cleifion yn gallu atgyfeirio eu hunain yn uniongyrchol eto i’r gwasanaeth ffisiotherapi. | |
| Argaeledd gwasanaethau | Mae gwasanaethau ffisiotherapi i gleifion allanol yn parhau i gael eu darparu ar ffurf gwasanaeth pum diwrnod traddodiadol gan amlaf. | |
| **A yw gwasanaethau radioleg yn gallu ateb y galw?** | | |
| Amseroedd aros ar gyfrer profion radioleg o bob math | Mae amseroedd aros ar gyfer profion radioleg yn cynyddu, gyda chanran y cleifion sy’n aros mwy nag wyth wythnos yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Cyfraddau atgyfeirio MRI | Mae cyfradd yr atgyfeiriadau ar gyfer sganiau MRI gan feddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan yn Ysbyty Athrofaol Llandochau. Mae cyfraddau’n uwch yn Ysbyty Athrofaol Cymru, sy’n adlewyrchu’r cymysgedd ehangach o gleifion yn yr ysbyty hwn. | |
| Amseroedd aros am sganiau MRI | Mae canran y cleifion sy’n aros mwy nag wyth wythnos am sganiau MRI wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, er bod perfformiad yn gwella. | |

| **Gwasanaethau i gleifion preswyl** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A oes tystiolaeth bod trefniadau'n ymwneud â thriniaethau llawfeddygol yn effeithiol?** | | |
| Trefniadau asesu cyn llawdriniaethau | Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaethau ar waith ond nid oes adran bwrpasol ar gyfer asesu ar hyn o bryd. | |
| Cael asesiad cyn llawdriniaeth | Cafodd pob claf ond un yn ein harolwg asesiad cyn llawdriniaeth er bod traean o gleifion wedi'i gael lai na thair wythnos cyn cael eu derbyn i'r ysbyty. | |
| Triniaethau sy'n cael effaith glinigol gyfyngedig | Mae cyfradd y triniaethau sy'n cael effaith glinigol gyfyngedig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan i drigolion Caerdydd ond yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan i drigolion Bro Morgannwg. | |
| Cyfraddau cleifion allanol Cymdeithas Llawdriniaeth Ddydd Prydain | Mae canran y triniaethau orthopedeg a argymhellir sy'n cael eu cwblhau fel achosion dydd yn is na tharged Llywodraeth Cymru ledled y safleoedd. | |
| Cyflwyno 'ysgol y cymalau' | Nid yw'n eglur a yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno ysgol y cymalau. | - |
| Amseroedd aros am lawdriniaeth | Mae canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos i gael eu derbyn i'r ysbyty wedi aros yn gymharol sefydlog ers mis Ebrill 2012 ac yn is na chyfartaledd Cymru. | |

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw nifer y gwelyau'n cael ei ddefnyddio yn effeithiol?** | | |
| Derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth | Mae 66 y cant o gleifion yn cael eu derbyn i Ysbyty Athrofaol Llandochau ar ddiwrnod eu llawdriniaeth, sy'n uwch na tharged Llywodraeth Cymru. Ond mae'r canran yn Ysbyty Athrofaol Cymru (60 y cant) yn is na tharged Llywodraeth Cymru. | |
| Gostyngiad yn nifer y gwelyau i gleifion preswyl | Mae cyfanswm y gwelyau ar gyfer cleifion orthopedig wedi gostwng 14.7 y cant dros y pedair blynedd ddiwethaf, gyda chyfartaledd o 153 o welyau ar gael yn ddyddiol ledled y Bwrdd Iechyd. | Dangosydd disgrifydd |
| Defnyddio gwelyau | Mae cyfraddau defnyddio gwelyau ychydig yn is na'r lefel optimaidd o 85 y cant, sef 84.5 y cant. Fodd bynnag, mae perfformiad yn amrywio ar safleoedd gwahanol gyda lefel defnyddio gwelyau Ysbyty Athrofaol Llandochau yn 63.9 y cant. | |
| **A yw capasiti theatrau llawdriniaeth yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol?** | | |
| Defnyddio theatrau | Ni ddarparodd y Bwrdd Iechyd wybodaeth am y defnydd o theatrau ym maes llawdriniaethau orthopedig. | - |
| Llawdriniaethau a ganslwyd | Roedd y Bwrdd Iechyd ymysg y rhai nad oedd yn gallu adrodd ar ei gyfraddau sesiynau theatr orthopedig a ganslwyd. | - |

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
| --- | --- | --- |
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw hyd arhosiad cleifion mor fyr â phosibl?** | | |
| Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer derbyniadau orthopedig dewisol | Hyd arhosiad cyfartalog cleifion orthopedig dewisol yw 4.3 diwrnod, sydd y tu allan i darged pedwar diwrnod Llywodraeth Cymru er mae perfformiad yn amrywio ar safleoedd gwahanol, gyda pherfformiad o fewn y targed yn Ysbyty Athrofaol Cymru. | |
| Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae'r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy'n cael cluniau a phengliniau newydd ychydig y tu allan i darged 6.3 diwrnod Llywodraeth Cymru. Mae hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer pen-glin newydd yn cyd-fynd â tharged 6.1 diwrnod Llywodraeth Cymru. | |
| Cost fesul cyfnod claf preswyl | Mae cost gyfartalog derbyn claf orthopedig dewisol i'r ysbyty yr uchaf yng Nghymru (£4,795). | |
| Cost prosthetig fesul cyfnod claf preswyl | Cost gyfartalog prosthetig fesul cyfnod claf preswyl yw'r uchaf yng Nghymru, sef £808 ac mae ar gynnydd. | |
| Cost fesul claf allanol | Mae cost claf allanol orthopedig dewisol (£1,144) ychydig is na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Cost fesul diwrnod gwely claf preswyl | Mae cost diwrnod gwely claf preswyl dewisol (£1,273) ychydig yn uwch na chost gyfartalog Cymru gyfan. | |

| Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y Perfformiad** |
| **A yw cleifion yn cael apwyntid dilynol?** | | |
| Apwyntiadau dilynol | Dim ond 71 y cant o gleifion gafodd apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd. Dyma oedd yr ymateb isaf yng Nghymru. | |
| Trefnir apwyntiadau dilynol o fewn yr amserlenni a argymhellir | Cafodd naw deg dau y cant o gleifion apwyntiad dilynol rhwng chwe wythnos a thri mis ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. | |
| **A yw cymhlethdodau niweidiol yn cael eu hosgoi a'r manteision gorau posibl yn deillio o lawdriniaethau?** | | |
| Heintiau mewn Safleoedd Llawfeddygol (SSIs) | Mae'r gyfradd SSI ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan, ond mae'r gyfradd SSI ar gyfer llawdriniaeth i osod pengliniau newydd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Targed Llywodraeth Cymru ar gyfer SSI yw sero y cant. | |
| Cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae'r gyfradd aildderbyn cleifion yn dilyn llawdriniaeth ddewisol i osod clun newydd yn cyd-fynd â tharged Cymru gyfan, ond mae'r gyfradd ar gyfer gosod pen-glin newydd yn is na'r targed. | |
| Cyfraddau marwolaethau ar gyfer cleifion orthopedig dewisol | Mae'r gyfradd marwolaethau ar gyfer derbyniadau orthopedeg dewisol o fewn 30 diwrnod i ryddhau cleifion yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau | Mae'r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau ymysg yr uchaf yng Nghymru yn nau leoliad y Bwrdd Iechyd, gyda'r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod penglin newydd yn uchel i drigolion Bro Morgannwg hefyd. | |

| Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y Perfformiad** |
| Gwella symptomau | Dywedodd saith deg wyth y cant o gleifion fod y llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau yn rhannol neu'n sylweddol. Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | |


# Rhan 1

# 1 Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol

## Darpariaeth gofal sylfaenol

1.1 Yn ystod y tair blynedd rhwng 2010 a 2013, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei wariant gofal sylfaenol ar wasanaethau cyhyrysgerbydol 8.0 y cant (Arddangosyn 3). Roedd gwariant y Bwrdd Iechyd fesul pen o'r boblogaeth ar wasanaethau cyhyrysgerbydol gofal sylfaenol (£11.20), fodd bynnag, yn is na chyfartaledd Cymru gyfan yn 2013 a'r isaf yng Nghymru (Arddangosyn 3).

Arddangosyn 3: Gwariant cyllideb y rhaglen gyhyrysgerbydol ar ofal sylfaenol rhwng 2010 a 2013




Ffynhonnell: Stats Cymru

1.2 Lleihaodd cyfran yr arian cyhyrysgerbydol a wariwyd ar ofal sylfaenol gan y Bwrdd Iechyd rhwng 2010-11 a 2011-12 ond cynyddodd ychydig y flwyddyn ganlynol (Arddangosyn 4). Fodd bynnag, mae gwariant wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yn gyson, gan awgrymu bod gwasanaethau cyhyrysgerbydol wedi canolbwyntio mwy ar ddarpariaeth gofal sylfaenol na byrddau iechyd eraill.

Arddangosyn 4: Cyfran cyllideb y rhaglen gyhyrysgerbydol a wariwyd ar ofal sylfaenol rhwng 2010-11 a 2012-13

| Bwrdd Iechyd | % cyllideb y rhaglen MSK a wariwyd ar ofal sylfaenol | | |
|---|---|---|---|
| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
| Abertawe Bro Morgannwg | 11.3 | 9.8 | 10.8 |
| Aneurin Bevan | 10.2 | 10.2 | 9.7 |
| Betsi Cadwaladr | 10.7 | 9.3 | 9.9 |
| Caerdydd a'r Fro | 11.9 | 10.6 | 12.0 |
| Cwm Taf | 16.0 | 15.1 | 15.4 |
| Hywel Dda | 9.3 | 9.0 | 10.3 |
| Addysgu Powys | 9.9 | 14.0 | 17.1 |
| **Cymru Gyfan** | **11.1** | **10.4** | **11.2** |

Ffynhonnell: Stats Cymru

1.3 Fel rhan o'n gwaith, aethom ati i adolygu lefel mynediad uniongyrchol meddygon teulu at wasanaethau sylfaenol a chymunedol, a allai atal atgyfeiriad diangen i wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd. Byddai hyn yn cynnwys gwasanaethau fel gwasanaethau poen cymunedol, rhaglenni hunanreoli, rhaglenni ffordd o fyw cymunedol, gwasanaethau ffisiotherapi cymunedol a gwasanaethau therapi ceriopractig. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod ganddo nifer o wasanaethau y gall meddygon teulu eu cyrchu yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae ystod y gwasanaethau yn cymharu'n llai ffafriol â rhai byrddau iechyd eraill yng Nghymru (Arddangosyn 5).

Arddangosyn 5: Mynediad uniongyrchol meddygon teulu at wasanaethau sylfaenol a chymunedol

| | Abertawe Bro Morgannwg | Aneurin Bevan | Betsi Cadwaladr | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf | Hywel Dda | Powys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffisiotherapi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | - | ✓ |
| Ffisiotherapyddion rôl estynedig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | - | ✓ |
| Gwasanaeth poen cymunedol | ✓ | | | ✓ | ✓ | - | ✓ |
| Meddyg teulu â diddordeb arbennig mewn cyflyrau/ anhwylderau orthopedig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | - | |
| Gwasanaethau gwell sy'n berthnasol i gyflyrau/ anhwylderau orthopedig | | Yn rhannol | | | | - | |
| Gwell mynediad at wasanaethau diagnostig | | ✓ | Yn rhannol | | | - | ✓ |
| Therapi ceiropractig | | | | | | - | |
| Rhaglenni cymunedol ar ffordd o fyw/colli pwysau | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | - | ✓ |
| Rhaglenni hunanreoli | ✓ | | | | | - | |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.4 Fel rhan o'n Harolwg o Gleifion sy'n cael Llawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd, gofynnwyd i gleifion a oeddent wedi derbyn amrywiaeth o ymyriadau amgen cyn cael y llawdriniaeth. Cyfran y cleifion oedd yn derbyn cyngor ffisiotherapi neu driniaeth ledled y Bwrdd Iechyd oedd yr uchaf yng Nghymru (37.8 y cant). Roedd cyfran y cleifion a oedd yn derbyn rhaglen rheoli pwysau a chyngor ar ymarfer hefyd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Roedd cyfran y cleifion a oedd yn derbyn cymorth lleddfu poen ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, sydd hefyd yn gadarnhaol gan ei fod yn awgrymu bod meddygon teulu'n chwilio am driniaethau amgen i roi meddyginiaeth ar bresgripsiwn (Arddangosyn 6).

Arddangosyn 6: Canran y cleifion a dderbyniodd ymyriad amgen cyn cael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd


| | Caerdydd a'r Fro | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|
| Canran y cleifion a gafodd ymyriad lleddfu poen cyn y llawdriniaeth | 71.6 | 74.9 |
| Canran y cleifion a gafodd gyngor neu driniaeth ffisiotherapi cyn y llawdriniaeth | 37.8 | 26.1 |
| Canran y cleifion a gafodd raglen ymarfer corff cyn y llawdriniaeth | 24.3 | 23.4 |
| Canran y cleifion a gafodd gyngor ar reoli pwysau cyn y llawdriniaeth | 12.2 | 9.1 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

## Atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu

1.5 Mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r cyfraddau isaf o atgyfeiriadau meddygon teulu ym maes orthopedeg fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru (Arddangosyn 7). Caerdydd sydd â'r gyfran isaf o drigolion 65 oed a throsodd yng Nghymru, ac mai'r gyfran ychydig uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ym Mro Morgannwg. Mae hyn yn awgrymu bod y gyfradd atgyfeirio yn adlewyrchu oedran prif boblogaeth y dalgylch i raddau helaeth. Mae'r gyfradd atgyfeirio wedi codi ychydig ers 2012-13 (Arddangosyn 7), er ei bod yn dal i fod o dan gyfartaledd Cymru gyfan.


Arddangosyn 7: Atgyfeiriadau gan feddygon teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth 2012-2014




Ffynhonnell: Stats Cymru

1.6 Mae nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu i'r gwasanaeth orthopedeg wedi parhau'n gymharol gyson dros y tair blynedd ddiwethaf, gydag ambell gyfnod prysurach. Dros y cyfnod hwn, derbyniodd y Bwrdd Iechyd gyfartaledd o 850 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu bob mis calendr (Arddangosyn 8).

Arddangosyn 8: Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan feddygon teulu rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2015




Ffynhonnell: Stats Cymru

## Gwasanaethau asesu a thriniaeth cyhyrysgerbydol cymunedol

1.7 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gysyniad CMATS yn 2012. Amcan CMATS yw darparu man cyswllt cyntaf ar gyfer atgyfeiriadau gan feddygon teulu ar gyfer asesu a thrin pwynt a chyflyrau cyhyrysgerbydol fel ffordd o sicrhau atgyfeiriadau cywir i wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd CMATS yn Ebrill 2012, gan gyfeirio ato'n lleol fel y 'tîm cyhyrysgerbydol gofal sylfaenol'. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau clir ar sut y dylai CMATS weithredu. Mae cydymffurfiaeth leol ag egwyddorion allweddol canllawiau Llywodraeth Cymru yn amrywio, fodd bynnag (Arddangosyn 9).


Arddangosyn 9: Cydymffurfiaeth ag egwyddorion allweddol canllawiau Llywodraeth Cymru ar CMATS

| Egwyddor | Cydymffurfiaeth y bwrdd iechyd hwn | Nifer y byrddau iechyd ledled Cymru sy'n cydymffurfio |
|---|---|---|
| Clinigau sy'n cael eu cynnal mewn cyfuniad o ganolfannau lleol a gofal eilaidd | ✓ | Pob un ac eithrio Aneurin Bevan a Chwm Taf |
| Bydd pob atgyfeiriad cyhyrysgerbydol (ac eithrio eithriadau penodol) yn mynd i'r CMATS | ✗ | Tri (Abertawe Bro Morgannwg, Betsi Cadwaladr a Chwm Taf) |
| Mae gan staff fynediad uniongyrchol at wasanaethau diagnosteg | ✓ | Pob un ac eithrio Powys |
| **Mae'r gwasanaeth yn cynnwys:** | | |
| Ffisiotherapyddion ymarfer uwch | ✓ | Pob un |
| Podiatryddion ymarfer uwch | ✗ | Pob un ac eithrio Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro |
| Meddygon teulu â gwybodaeth, sgiliau a diddordeb mewn cyflyrau/problemau cyhyrysgerbydol | ✓ | Pedwar (Abertawe Bro Morgannwg, Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a'r Fro) |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.8 Mae lefel staffio CMATS yn y Bwrdd Iechyd ymysg yr isaf yng Nghymru (Arddangosyn 10). Nid yw CMATS y Bwrdd yn gweithredu fel porth i'r holl atgyfeiriadau felly bydd dan lai o bwysau na gwasanaethau sydd â lefelau staffio tebyg. Un gymhariaeth yw CMATS Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sy'n darparu gwasanaeth tebyg gyda nifer tebyg o atgyfeiriadau bob mis.

Arddangosyn 10: Lefelau staffio CMATS




Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.9 Un o egwyddorion CMATS yw asesu, gwneud diagnosis a thrin cleifion y mae eu triniaeth yn berthnasol i arbenigeddau CMATS a lle y credir bod modd gweld a thrin y claf mewn dim mwy na dau ymweliad (‘asesiadau wyneb yn wyneb’). Dylai cleifion sydd angen triniaeth fwy dwys gael eu hatgyfeirio i wasanaethau mwy priodol ar adeg eu cyfeirio. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfran y cleifion a dderbyniodd asesiad wyneb yn wyneb. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, nid yw amseroedd aros i weld CMATS ar gyfer asesiad wyneb yn wyneb yn cael eu cynnwys yn y llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Fodd bynnag, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar yr amser aros cyfartalog rhwng atgyfeirio i asesiad wyneb yn wyneb gan CMATS ychwaith.


Rhan 2

# 2 Cleifion allanol a gwasanaethau diagnostig

## Gwasanaethau i gleifion allanol

2.1 Er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o drin 95 y cant o gleifion o fewn 26 wythnos i'w hatgyfeirio, dylai byrddau iechyd fod yn gweithio ar sail targed mewnol o rhwng 12 a 14 wythnos ar gyfer apwyntiad cyntaf cleifion allanol. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar sail targed lleol o 12 wythnos ar gyfer apwyntiad orthopedig rheolaidd, sy'n rhoi llai o bwysau ar elfennau diagnostig a chleifion preswyl y llwybr 26 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Roedd canran y cleifion a arhosodd fwy na 26 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf yn isel yn gyson yn 2012 ond dechreuodd godi yn Ebrill 2013, gan gyrraedd uchafbwynt o 6.8 y cant yn Awst 2013 (Arddangosyn 11). Ac eithrio Gorffennaf 2013 i Fedi 2013, mae canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, gyda pherfformiad Mawrth 2014 ychydig is na phedwar y cant. Ers Tachwedd 2013, roedd y ffigurau wedi codi, sy'n awgrymu nad oedd capasiti cleifion allanol wedi ateb y galw a chynnal amseroedd aros isel; fodd bynnag, mae perfformiad wedi gwella ers mis Medi 2014.


Arddangosyn 11: Canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos am apwyntiad claf allanol cyntaf




Ffynhonnell: Uned Gyflenwi Llywodraeth Cymru

2.2 Mae’r gallu i fodloni gofynion cleifion allanol yn dibynnu ar lefelau staffio meddygol byrddau iechyd. O safbwynt capasiti meddygon ymgynghorol, mae hefyd yn bwysig ystyried a oes cydbwysedd priodol ym mhob cynllun swydd unigol rhwng sesiynau gofal clinigol uniongyrchol cleifion allanol a theatrau. Nifer y meddygon ymgynghorol fesul 1,000 o atgyfeiriadau yn y Bwrdd Iechyd yw’r uchaf ledled Cymru (Arddangosyn 12) ond nid oedd data ar gael i ddangos nifer y sesiynau gan feddygon ymgynghorol oedd wedi’u neilltuo ar gyfer cleifion allanol.

Arddangosyn 12: Staffio meddygon ymgynghorol a sesiynau cleifion allanol fesul 1,000 o atgyfeiriadau ar gyfer 2013-14




Ffynhonnell: Stats Cymru ac Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

2.3 Ar ôl cynllunio sesiynau i gleifion allanol, mae’n bwysig eu cynnal wedyn gan fod canslo clinigau yn creu pwysau ychwanegol ar y system oherwydd bod rheidrwydd o hyd ar y Bwrdd Iechyd i drin cleifion o fewn 26 wythnos. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod 6.9 y cant o glinigau cleifion allanol wedi’u canslo yn Ysbyty Athrofaol Llandochau yn 2012-13, yr ysbyty lle y cynhelir 95 y cant o weithgarwch orthopedig cleifion allanol. Canslwyd 4.3 y cant o glinigau cleifion allanol yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Nid yw llawer o fyrddau iechyd yn gallu cyflwyno’r data hwn, felly nid oes cymhariaeth ar gael.


2.4 Mae clinigau'n cynnwys cymysgedd o apwyntiadau newydd a dilynol ar sail galw am y gwasanaeth. Mae'n bosibl y bydd angen apwyntiad dilynol ar rai cleifion cyn y gall gweithwyr proffesiynol wneud penderfyniad clinigol, ond i gleifion eraill, mae un apwyntiad claf allanol yn ddigon. Nid oes angen i rai cleifion sydd angen apwyntiadau dilynol gael eu gweld gan feddyg neu mewn ysbyty o reidrwydd. Felly, dim ond os oes angen i gleifion ddychwelyd y dylid gofyn iddynt wneud hynny, gan sicrhau eu bod yn mynd i'r lleoliad priodol. Bydd hyn yn helpu i osgoi apwyntiadau dilynol diangen, a all ddisodli cleifion sydd angen apwyntiadau cyntaf ar frys.

2.5 Ar gyfer y cyfnod 2013-14, roedd y gymhareb o apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd yn y Bwrdd Iechyd yn uwch na tharged blaenorol Llywodraeth Cymru, sef 3.2 apwyntiad dilynol i bob apwyntiad newydd.

2.6 Gall newidiadau mewn darpariaeth gwasanaethau i gleifion allanol helpu i leihau nifer ymweliadau cleifion â'r ysbyty. Gallai hyn gynnwys clinigau poeth, neu glinigau rhithwir, sy'n defnyddio technoleg fodern i gynnal ymgynghoriadau meddygol i gleifion. Yn ein harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, roedd 93 y cant o gleifion yn teimlo bod y Bwrdd Iechyd wedi ceisio cydgysylltu eu hymweliadau amrywiol. Hon oedd y ganran uchaf ledled Cymru.

2.7 Gall cyfradd y cleifion na fynychodd apwyntiadau a'r gyfradd a ganslodd apwyntiadau ddangos a yw apwyntiadau yn briodol. Mae gan y Bwrdd Iechyd y gyfradd uchaf ar gyfer apwyntiadau ledled Cymru, sef 12.2 y cant. Y gyfradd ar gyfer apwyntiadau dilynol yw 7.1 y cant, sef yr ail isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r ddwy gyfradd yn uwch na thargedau Llywodraeth Cymru o bump y cant ar gyfer apwyntiadau newydd a saith y cant ar gyfer apwyntiadau dilynol, sy'n dangos fod gan y Bwrdd Iechyd gryn le i wella effeithlonrwydd ei wasanaethau i gleifion allanol (Arddangosyn 13). Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo apwyntiadau newydd ac apwyntiadau dilynol cleifion allanol gan gleifion. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo apwyntiadau, felly nid oes cymhariaeth ar gael.


Arddangosyn 13: Cyfraddau cleifion allanol na fynychodd apwyntiadau newydd ac apwyntiadau dilynol 2013-14




Ffynhonnell: Stats Cymru

2.8 Drwy ddefnyddio gwybodaeth ariannol a gyflwynir gan y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, nodwyd bod ymweliadau cleifion allanol orthopedig yn costio £99.35 yn y Bwrdd Iechyd, oedd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan yn 2011-12 (Arddangosyn 14), ac wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol. Bydd lefel y gweithgarwch yn yr adrannau cleifion allanol yn effeithio ar gost ymweliadau cleifion allanol, ynghyd â chyfran uwch o dderbyniadau newydd, er y bydd costau eraill sy'n gysylltiedig â staff a chyfarpar yn ffactorau pwysig hefyd.

Arddangosyn 14: Cost derbyn cleifion orthopedeg allanol yn 2010-11 a 2011-12





Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru

## Gwasanaethau ffisiotherapi

2.9 Yn gyffredinol, mae cleifion sydd angen ffisiotherapi i drin problemau cyhyrysgerbydol yn cael eu gweld yn llai cyflym yn y Bwrdd Iechyd na mewn rhannau eraill o Gymru. Roedd cyfartaledd o 70.7 y cant o gleifion yn aros am lai nag wyth wythnos o gymharu â pherfformiad Cymru gyfan (86.2 y cant) rhwng mis Ionawr 2014 a mis Chwefror 2015 (Arddangosyn 15). Roedd perfformiad ledled y Bwrdd Iechyd wedi gwella'n sylweddol ers dechrau 2013; yn dilyn cyfnod lle mai dim ond 50 y cant o gleifion ar gyfartaledd oedd yn cael eu gweld o fewn wyth wythnos; fodd bynnag, ers mis Hydref 2013, mae'r perfformiad wedi dechrau dirywio.

2.10 Yn ôl targed Llywodraeth Cymru, ni ddylai unrhyw glaf aros mwy nag 14 wythnos ar gyfer gwasanaethau therapi. Yn ystod 2013-14, ychydig iawn o gleifion sy'n aros mwy nag 14 wythnos yn y Bwrdd Iechyd er bod perfformiad wedi dirywio ers Rhagfyr 2013 (Arddangosyn 15).

Arddangosyn 15: Amseroedd aros ar gyfer ffisiotherapi (oedolion)





Ffynhonnell: Stats Cymru

2.11 Mae gwasanaethau ffisiotherapi ar gyfer cleifion allanol yn cael eu darparu mewn lleoliadau cleifion allanol, ond yn wahanol i fyrddau iechyd eraill ledled Cymru, nid oes darpariaeth ffisiotherapi mewn meddygfeydd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno proses hunangyfeirio eto ac mae cleifion sydd angen ffisiotherapi yn gorfod cael eu hatgyfeirio i'r adran gan weithiwr iechyd proffesiynol. Mae byrddau iechyd eraill wedi cyflwyno proses hunangyfeirio sydd wedi rhoi cyfle i gleifion gysylltu â'r adran am gyngor cyn gwneud atgyfeiriad, neu gael eu cyfeirio at wasanaethau mwy priodol. Yn debyg i weddill Cymru, mae gwasanaethau ffisiotherapi yn parhau i gael eu darparu'n bennaf fel gwasanaeth pum diwrnod traddodiadol yn ystod yr wythnos waith.

## Gwasanaethau radioleg

2.12 Bydd angen i gleifion â phroblemau cyhyrysgerbydol gael profion radiolegol gan amlaf. Mae mynediad at brofion radioleg o bob math yn dilyn cais gan feddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn y Bwrdd Iechyd wedi bod yn waeth yn gyson na chyfartaledd Cymru gyfan yn y gorffennol (Arddangosyn 16). Rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014, roedd perfformiad y Bwrdd Iechyd yn debyg i weddill Cymru, er bod y perfformiad wedi bod yn well na'r sefyllfa Cymru gyfan yn ystod 2014-15. (Arddangosyn 16).

Arddangosyn 16: Canran y cleifion sy'n aros dros wyth wythnos am brofion radioleg




Ffynhonnell: Stats Cymru

2.13 Ledled Cymru yn 2013-14, roedd 23 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddyg teulu a 39 y cant gan feddygon ymgynghorol yn geisiadau am sganiau MRI. Mae cyfraddau'r atgyfeiriadau MRI yn y Bwrdd Iechyd yn sylweddol uwch, sef 36 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddygon teulu a 51 y cant gan feddygon ymgynghorol. Mae'r patrwm atgyfeirio hwn yn amrywio rhwng y ddau ysbyty ac yn adlewyrchu cymhlethdod y cleifion sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru (Arddangosyn 17).


Arddangosyn 17: Cyfran y ceisiadau radioleg am sganiau MRI

| Safle ysbyty | Cyfran yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu am sganiau MRI | Cyfran yr atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol am sganiau MRI |
|---|---|---|
| Ysbyty Athrofaol Llandochau | 26 | 37 |
| Ysbyty Athrofaol Cymru | 42 | 55 |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | **23** | **39** |

Ffynhonnell: Stats Cymru

2.14 Mae'r cynnydd yn y galw, yn enwedig am sganiau MRI yn dilyn atgyfeiriad gan feddygon teulu, yn gallu rhoi pwysau ar adrannau radioleg y byrddau iechyd. Mae amseroedd aros ar gyfer sganiau MRI wedi codi'n raddol yn y Bwrdd Iechyd dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae cyfran uwch o gleifion yn gorfod aros am fwy o amser o gymharu â rhannau eraill o Gymru. Rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014, roedd cyfartaledd o 66.2 y cant o gleifion oedd wedi'u hatgyfeirio gan eu meddyg teulu wedi aros mwy nag wyth wythnos am eu profion MRI. Roedd cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod hwn yn 45.6 y cant. O'r cleifion a gafodd eu hatgyfeirio gan feddyg ymgynghorol, roedd 38.2 y cant wedi aros mwy nag wyth wythnos, o gymharu â chyfartaledd o 30.8 y cant ledled Cymru (Arddangosyn 18). Yn ystod 2014, mae perfformiad wedi gwella ond mae'n dal i fod yn uwch na'r sefyllfa ar gyfer Cymru gyfan.

Arddangosyn 18: Canran y cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos am sgan MRI




Ffynhonnell: Stats Cymru

# Rhan 3

# 3 Gwasanaethau i gleifion preswyl

## Aros a pharatoi i fynd i'r ysbyty

3.1 Ar ôl i'r clinigydd benderfynu mai ymyriad llawfeddygol yw'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â phroblemau cyhyrysgerbydol, dylai'r Bwrdd Iechyd roi enw'r claf ar y rhestr a threfnu dyddiad ar gyfer asesiad cyn y llawdriniaeth i sicrhau bod y claf yn iach yn glinigol. Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaeth ar waith ledled y Bwrdd Iechyd (Arddangosyn 19).

Arddangosyn 19: Trefniadau asesu cyn llawdriniaeth

| | Caerdydd a'r Fro |
|---|---|
| A yw'r asesiad cyn llawdriniaeth yn cael ei gynnal mewn adran bwrpasol? | × (rhan o'r adran cleifion allanol) |
| A yw'r asesiad cyn llawdriniaeth yn cael ei gynnal dan arweiniad nyrs? | ✓ |
| Sawl diwrnod o'r wythnos mae asesiadau cyn llawdriniaeth ar gael? | 5 |
| A yw'r asesiad cyn llawdriniaeth yn wasanaeth orthopedeg penodol? | ✓ |
| Pwy sy'n trefnu'r apwyntiad asesiad cyn llawdriniaeth? | Ysgrifenyddion meddygol a staff desg flaen |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru


3.2 Yn ôl ein harolwg o gleifion a gafodd ben-glin newydd, roedd pob un o'r cleifion wedi cael asesiad cyn y llawdriniaeth cyn cael eu derbyn i'r ysbyty ac eithrio un claf yn Ysbyty Athrofaol Llandochau a ddywedodd ei fod wedi cael asesiad cyn llawdriniaeth wrth gael ei dderbyn. Aseswyd 34 y cant o'r cleifion hyn lai na thair wythnos cyn cael llawdriniaeth. Dylid rhoi rhybudd rhesymol cyn cwblhau asesiadau cyn llawdriniaeth er mwyn lleihau nifer yr apwyntiadau sy'n cael eu canslo yn annisgwyl os oes angen ymyriad arall ar glaf cyn y llawdriniaeth.

3.3 Wrth roi enw claf ar y rhestr, mae'n bwysig ystyried manteision y llawdriniaeth ac osgoi rhoi triniaethau sydd ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig yn ôl y gwaith ymchwil[1]. Ar gyfer y cyfnod 2012-13, nodwyd bod cyfradd y triniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig yn debyg i gyfartaledd Cymru gyfan ledled y

[1] Mae'r triniaethau a adolygwyd yn cynnwys datgywasgu ar y meingefn, torri disg rhyngfertebrol, uno cymal arall y meingefn, dileu nam ar y meingefn, biopsi ar y meingefn, dadnerfogi cymal ffased meingefn fertebra ac archwilio'r meingefn.

Bwrdd Iechyd, ond wedi cyrraedd 50 fesul 100,000 o drigolion ym Mro Morgannwg (Arddangosyn 20).


Arddangosyn 20: Cyfradd y triniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig fesul 100,000 o'r boblogaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.4 Wrth roi enw claf ar y rhestr, mae'n bwysig hefyd ystyried y posibilrwydd o'i drin fel claf allanol er mwyn osgoi ei gadw yn yr ysbyty yn ddiangen. Mae Cymdeithas Triniaeth Ddydd Prydain wedi argymell nifer o driniaethau orthopedig sy'n addas ar gyfer cleifion allanol. Yn y gorffennol roedd y rhain yn rhan o fframwaith rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru, gyda tharged o 80 y cant. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13, methodd canran y triniaethau orthopedig a argymhellir a gwblhawyd ar gyfer cleifion allanol gyrraedd targed Llywodraeth Cymru. Cafwyd cyfradd o 65 y cant yn Ysbyty Athrofaol Cymru a chyfradd o 74 y cant yn Ysbyty Athrofal Llandochau (Arddangosyn 21).

Arddangosyn 21: Canran y triniaethau orthopedig a argymhellwyd gan BADS a gwblhawyd ar gyfer cleifion allanol 2012-13





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

Noder: Mae cyfleusterau ysbytai preifat a gwblhaodd waith ar ran y GIG wedi eu cynnwys.

3.5 Er mwyn sicrhau bod y canlyniad gorau posibl i gleifion yn deillio o ymyriad llawfeddygol, mae byrddau iechyd wedi mabwysiadu'r rhaglen Adferiad Gwell Ar ôl Llawdriniaeth (ERAS). Mae hyn yn cynnwys sefydlu 'ysgol ar y cyd' i ddarparu sesiynau addysgol ar gyfer cleifion sydd ar fin cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd. Mae cymorth yn cynnwys cyfle i gleifion ddysgu am ymarferion a thechnegau ffisiotherapi a fydd yn eu helpu i wella yn gynt ar ôl y llawdriniaeth. Cynhelir 'ysgol y cymalau' cyn derbyn claf i ysbyty, ac mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod egwyddor yr 'ysgol y cymalau' yn helpu'r claf i wella yn gynt ar ôl llawdriniaeth a'i helpu i aros yn yr ysbyty am lai o amser. Nid yw'n eglur a yw'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'r egwyddor 'ysgol y cymalau' gan na ddarparwyd unrhyw wybodaeth i ni.

3.6 Mae canran y cleifion sy’n aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu gleifion allanol yn y Bwrdd Iechyd wedi aros yn gymharol gyson ers Chwefror 2013 (Arddangosyn 22). Erbyn mis Ionawr 2015, roedd 28 y cant o gleifion wedi aros mwy na 26 wythnos i gael eu derbyn i’r ysbyty. Ledled Cymru, mae canran y cleifion sy’n aros mwy na 26 wythnos yn cynyddu, gyda 40 y cant yn aros erbyn Mawrth 2015.

Arddangosyn 22: Canran y cleifion sy’n aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu gleifion allanol rhwng Ebrill 2012 a Ionawr 2015





Ffynhonnell: Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru

## Derbyniadau

3.7 Er mwyn osgoi aros dros nos yn ddiangen yn yr ysbyty a manteisio’n llawn ar nifer y gwelyau sydd ar gael, mae’n arfer da derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth. Targed Llywodraeth Cymru yw bod o leiaf 64 y cant o gleifion yn cael eu derbyn ar ddiwrnod y llawdriniaeth. Yn Ysbyty Athrofaol Llandochau, mae 66 y cant o gleifion yn cael eu derbyn yr un diwrnod, gyda’r ffigur yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn 60 y cant, sy’n is na’r targed (Arddangosyn 23).

Arddangosyn 23: Canran y cleifion orthopedig dewisol a dderbyniwyd ar ddiwrnod eu llawdriniaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.8 Mae gan y Bwrdd Iechyd wardiau pwrpasol ar gyfer gweithgarwch orthopedeg dewisol. Roedd nifer y gwelyau trawma ac orthopedeg wedi gostwng 14.7 y cant dros y pedair blynedd diwethaf gyda 153 o welyau ar gael bob dydd ar gyfartaledd ledled dau brif safle'r Bwrdd Iechyd. Mae cyfradd defnyddio'r gwelyau hyn wedi gostwng ychydig yn y cyfnod hwn o 89.1 y cant yn 2010-11 i 84.5 y cant yn 2013-14, o gymharu â chyfradd defnyddio gwelyau optimaidd o 85 y cant. Fodd bynnag, mae perfformiad dau brif safle'r Bwrdd Iechyd yn amrywio'n fawr (Arddangosyn 24). Roedd cyfradd defnyddio gwelyau orthopedeg yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn 97.2 y cant yn 2013-14, oedd yn golygu nad oedd fawr o gapasiti i dderbyn achosion trawma ac orthopedig brys. Yn Ysbyty Athrofaol Llandochau, mae'r gyfradd ddefnyddio yn y cyfnod hwn wedi gostwng o 81.9 y cant yn 2011-12 i 63.9 y cant yn 2013-14, sy'n awgrymu bod cyfle i gynyddu trwybwn neu i leihau nifer y gwelyau sydd ar gael.

Arddangosyn 24: Nifer y gwelyau sydd ar gael a chyfraddau defnyddio gwelyau 2013-14

| | Gwelyau sydd ar gael | Cyfradd defnyddio gwelyau (%) |
|---|---|---|
| Ysbyty Athrofaol Llandochau | 58.4 | 63.9 |
| Ysbyty Athrofaol Cymru | 95.0 | 97.2 |

Ffynhonnell: Stats Cymru

## Yn yr ysbyty

3.9 Mae theatrau llawdriniaeth yn rhan bwysig o arhosiad claf orthopedig dewisol mewn ysbyty, a gall oedi neu ganslo llawdriniaeth arwain at brofiad gwael i gleifion a defnydd aneffeithlon o adnoddau. Gall canslo llawdriniaeth ar ddiwrnod y llawdriniaeth arwain hefyd at danddefnyddio capasiti theatrau. Ni ddarparodd y Bwrdd Iechyd unrhyw wybodaeth am ddefnydd theatrau ar gyfer llawdriniaethau orthopedig. Targed Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio theatrau yw 95 y cant. Ni chawsom wybodaeth am berfformiad defnyddio theatrau ar gyfer llawdriniaethau orthopedig gan bob bwrdd iechyd, felly nid oedd modd gwneud cymhariaeth.


3.10 Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfradd y sesiynau theatr orthopedig a ganslwyd a'r llawdriniaethau a ganslwyd yn ystod 2012-13. Yn y gorffennol mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed o ddau y cant ar gyfer llawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar ddiwrnod y llawdriniaeth. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo llawdriniaethau, felly nid modd gwneud cymhariaeth.

## Rhyddhau cleifion

3.11 Hyd arhosiad cyfartalog claf orthopedig dewisol yn y Bwrdd Iechyd yw 4.3 diwrnod, sy'n uwch na tharged Llywodraeth Cymru o bedwar diwrnod. Mae perfformiad dau brif safle'r Bwrdd Iechyd yn amrywio. Yr hyd arhosiad byrraf ar gyfartaledd yw 3.0 diwrnod yn Ysbyty Athrofaol Cymru o gymharu â 4.5 diwrnod yn Ysbyty Athrofaol Llandochau.

3.12 Mae'r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth i osod clun newydd y tu allan i darged Llywodraeth Cymru o 6.1 diwrnod, sef 6.3 diwrnod. Mae'r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru o 6.5 diwrnod (Arddangosyn 25). Mae pob llawdriniaeth i osod clun a phen-glin newydd yn digwydd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau.

Arddangosyn 25: Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaethau dewisol i osod clun a phen-glin newydd rhwng Ebrill 2012 a Hydref 2013





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.13 Cost cyfartalog cyfnod gofal orthopedig dewisol mewn ysbyty yn y Bwrdd Iechyd yn 2012-13 oedd £4,795, yr uchaf yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o £4,239. Bydd hyd arhosiad cleifion yn dylanwadu ar gost derbyniad i'r ysbyty, ond bydd costau eraill yn gysylltiedig â staff a chyfarpar yn ffactorau pwysig hefyd.

3.14 Un ffactor sy'n dylanwadu ar gost triniaeth yw'r gost sy'n gysylltiedig â phrosthesisau. Cost gyfartalog prosthesisau fesul cyfnod gofal yn y Bwrdd Iechyd (£808) oedd yr uchaf yng Nghymru yn 2011-12, cynnydd o 3.5 y cant o'r flwyddyn flaenorol (Arddangosyn 26). Mae'r detholiad ehangach o driniaethau orthopedig a gyflawnir gan y Bwrdd Iechyd yn debygol o effeithio ar y gost.


Arddangosyn 26: Cost gyfartalog prosthetig fesul derbyniad yn 2010-11 a 2011-12




Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru

3.15 Y gost fesul diwrnod gwely ar gyfer claf preswyl orthopedig dewisol yn y Bwrdd Iechyd yw £1,273, sydd ychydig uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 27). Mae cost claf allanol orthopedig dewisol ychydig is na chyfartaledd Cymru gyfan, sef ar £1,144 (Arddangosyn 27). Pe bai perfformiad yn erbyn triniaethau orthopedig BADS yn Ysbyty Athrofaol Llandochau'n gwella i'r lefel a argymhellir o 80 y cant, gellid rhyddhau adnoddau gwerth tua £262,136, neu ryddhau capasiti i gynyddu llif cleifion.

Arddangosyn 27: Cost gyfartalog fesul claf allanol orthopedig dewisol a diwrnod gwely claf preswyl 2012-13




Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru


Rhan 4

# 4 Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau

## Trefniadau dilynol

4.1 Ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty, dylai cleifion sydd wedi cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd gael apwyntiad dilynol rhwng chwe wythnos a thri mis ar ôl eu rhyddhau. Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod 80.7 y cant o gleifion a oedd yn cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd dros gyfnod o dri mis wedi cael apwyntiad dilynol o fewn yr amserlen benodedig. Fodd bynnag, dangosodd ein harolwg o gleifion mai dim ond 71 y cant o gleifion a ymatebodd i'n harolwg a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd oedd wedi cael apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty (Arddangosyn 28). Dyma'r gyfran isaf yng Nghymru. Roedd 91.5 y cant o'r rhain wedi cael yr apwyntiad dilynol o fewn yr amserlenni penodedig.

Arddangosyn 28: Canran y cleifion yn yr arolwg a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd a gafodd apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

## Canlyniadau a phrofiad cleifion

4.2 I lawer o gleifion, gall llawdriniaeth fod yn brofiad cadarnhaol sy'n newid eu bywydau ac yn gwella eu hansawdd bywyd yn sylweddol, ond gall pethau fynd o chwith ambell waith. Fel rhan o'n gwaith aethom ati i adolygu amrywiaeth o ddangosyddion i ddeall i ba raddau y mae'r profiadau hyn yn niweidiol i gleifion yn y tymor byr a'r hirdymor.

4.3 Os yw claf yn dal haint mewn safle llawfeddygol (SSI) mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddo aros yn hirach yn yr ysbyty. Ar gyfer y cyfnod 2012-13, aethom ati i adolygu cyfradd yr heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd. Mae cyfradd yr heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 29). Targed Llywodraeth Cymru yw sero y cant.

Arddangosyn 29: Cyfraddau heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer arthrosgopi cluniau a phen-gliniau

| **Ysbyty** | Cyfraddau SSI (cluniau) | Cyfraddau SSI (pengliniau) |
|---|---|---|
| Ysbyty Athrofaol Llandochau | 1.5 | 1.5 |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | **1.5** | **1.8** |

Ffynhonnell: Arsylffa Iechyd Cyhoeddus Cymru

4.4 Ar gyfer yr un cyfnod, nodwyd bod cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth ddewisol i osod clun newydd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod pengliniau newydd yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r gyfradd marwolaethau ar gyfer derbyniadau orthopedig dewisol yn is na chyfartaledd Cymru gyfan hefyd ac ymysg yr isaf yng Nghymru. (Arddangosyn 30).


Arddangosyn 30: Cyfraddau aildderbyn cleifion a'r cyfraddau marwolaethau ym maes llawdriniaeth orthopedig ddewisol

| Dangosydd | Caerdydd a'r Fro | **Cyfartaledd Cymru gyfan** |
|---|---|---|
| Canran y cleifion a aildderbyniwyd o fewn 28 diwrnod o gael llawdriniaeth i osod clun newydd | 0.9 | **0.9** |
| Canran y cleifion a aildderbyniwyd o fewn 28 diwrnod o gael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd | 0.0 | **0.1** |
| Marwolaethau yn yr ysbyty fesul 100 o dderbyniadau orthopedig dewisol | 0.04 | **0.06** |
| Marwolaethau o fewn 30 diwrnod o ryddhau cleifion orthopedig dewisol, fesul 100 o dderbyniadau orthopedig dewisol | 0.04 | **0.10** |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

4.5 Mae oes clun neu ben-glin artiffisial yn amrywio oherwydd nifer o ffactorau, ond maen nhw'n gallu para dros 20 mlynedd ar gyfartaledd. Fodd bynnag, wrth i oedran cyfartalog y boblogaeth gynyddu, mae'r tebygolrwydd o orfod cael llawdriniaeth i ail-wneud y cymal newydd yn cynyddu hefyd. Fodd bynnag, gall yr angen i ail-wneud llawdriniaethau ddangos nad oedd y llawdriniaeth wreiddiol i osod cymal newydd yn effeithiol. Mae'r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau newydd ymysg yr uchaf yng Nghymru ar gyfer trigolion Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r gyfradd ar gyfer ail-wneud llawdriniaethau i osod pengliniau newydd ar gyfer trigolion Bro Morgannwg hefyd yn uchel, sef 1.2 y cant fesul 10,000 o'r boblogaeth o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 0.7 (Arddangosyn 31).


Arddangosyn 31: Cyfradd ail-wneud llawdriniaethau fesul 10,000 o’r boblogaeth




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

4.6 Fel rhan o’n harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, gofynnwyd i gleifion a oedd eu llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau. Dywedodd 78.4 y cant o gleifion y Bwrdd Iechyd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau fod y llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau. Roedd hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan o 80 y cant. Dywedodd pedwar deg tri y cant o gleifion y Bwrdd Iechyd fod llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau’n sylweddol, gyda 35 y cant arall yn dweud bod llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau’n rhannol (Arddangosyn 32).

Arddangosyn 32: Canran y cleifion a ddywedodd fod eu llawdriniaeth i osod pen-glin newydd wedi gwella eu symptomau'n rhannol neu'n sylweddol




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

4.7 Dywedd y Bwrdd Iechyd ei fod yn defnyddio amryw o fesurau i fonitro canlyniadau cleifion sy'n cael triniaeth orthopedig drwy'r system Bluespier, yn cynnwys sgoriau Cluniau a Phengliniau Rhydychen, a chyflwyno data cleifion i Gofrestrfa Genedlaethol y Cymalau. Cydnabyddir bod hyn yn arfer da.

4.8 Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi cynnal un neu fwy o arolygon boddhad cleifion dros y 12 mis diwethaf er mwyn casglu safbwyntiau cleifion orthopedig. Yn ogystal, dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn defnyddio holiaduron ar wardiau, a mesurau archwilio a llywodraethu clinigol i fonitro profiad cleifion o wasanaethau orthopedeg. Fodd bynnag, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd fesur nifer y cwynion a dderbyniwyd am wasanaethau orthopedeg. Mae llawer o fyrddau iechyd eraill yn methu adrodd ar nifer y cwynion sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau orthopedeg.

# Atodiad 1

## Ffynonellau data

Mae'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i lywio'r arolwg gorfodol o wasanaethau orthopedeg yn cynnwys:

- Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru a ofynnodd am ddata amrywiol yn ymwneud ag:
  - Atgyfeiriadau gan feddygon teulu
  - CMATS
  - Cleifion allanol orthopedig
  - Gwasanaethau therapi
  - Gwasanaethau radioleg
  - Asesiad cyn y llawdriniaeth
  - Gwelyau orthopedeg
  - Theatrau llawdriniaeth
  - Staffio meddygol
  - Profiad cleifion
  - Gwybodaeth ariannol
- Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru
- Stats Cymru (www.statscymru.cymru.gov.uk)
- Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd
- Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd
- Ffurflenni costau Cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru